Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Tre Ficer**

**Ysgol Rhys Prichard**
**Bloc 4**
**Heol Cilycwm**
**Llanymddyfri**
**SA20 0DY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cylch Meithrin Tre Ficer

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Tre Ficer |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru yw hwn |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf iawn ac maent yn ddysgwyr chwilfrydig. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf ac yn mynegi eu barn yn agored, gan wybod y bydd y staff yn gwrando arnynt. Mae'r plant yn hapus iawn ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau pwrpasol yn annibynnol.

Mae'r staff yn deall y polisïau ac yn eu gweithredu'n gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol y plant er mwyn diogelu eu llesiant yn llwyddiannus. Mae'r staff yn wybodus, yn garedig, yn ofalgar ac yn gwbl ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd glân a diogel â digon o le. Mae amrywiaeth o ardaloedd chwarae a digon o adnoddau a theganau i annog y plant i chwarae a dysgu. Maent yn sicrhau bod amrywiaeth eang a chyffrous o adnoddau ar gael i'r plant i feithrin eu sgiliau datblygiadol, ac maent yn cynnig cyfleoedd rhagorol iddynt chwarae a dysgu mewn amrywiaeth o ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth ragorol ac ymdeimlad rhagorol o bwrpas sy'n cynnal gwelliant ac yn hyrwyddo canlyniadau da i'r plant. Maent yn gwerthfawrogi'r staff ac yn rhoi cymorth effeithiol a rheolaidd iddynt, gan sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd datblygiadol a'u bod yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd. Maent yn herio pawb i wneud eu gorau ac yn gosod disgwyliadau uchel. Maent wedi datblygu cydberthnasau cryf ym mhob rhan o'r gymuned ac yn enwedig gyda'r ysgol gynradd.

| Llesiant | Rhagorol |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac mae ganddynt lais cryf yn y lleoliad hwn. Maent yn gwneud dewisiadau pwrpasol ac yn symud o gwmpas eu hamgylchedd yn hyderus. Er enghraifft, gallant ddewis ble i chwarae, fel yr ardal chwarae rôl, yn yr awyr agored ar y beiciau neu'n archwilio'r ardal natur. Mae'r plant yn mwynhau gwneud penderfyniadau wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau cyffrous ac ysbrydoledig, fel dyfrio'r blodau a chadw llygad ar gocynau'r lindys. Mae rhai o'r plant yn mynegi eu hunain yn glir gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion. Maent yn siarad yn hyderus ac yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hyderus wrth wneud penderfyniadau. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, mae'r plant yn dewis pa ddiodydd a ffrwythau fyddai'n well ganddynt. Mae'r plant nad ydynt am gymryd rhan mewn gweithgaredd wedi'i gynllunio neu amser byrbryd yn dweud hynny'n glir, ac yn parhau â'r gweithgaredd chwarae a ddewiswyd ganddynt yn ddigon bodlon.

Mae'r plant wedi setlo ac yn ymdopi'n dda wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Pan fyddant yn teimlo'n ansicr, mae'r staff yn eu cefnogi'n effeithiol drwy roi cysur a thawelwch meddwl tyner iddynt. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cryf â'r staff, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant a'u cymhelliant. Mae'r plant yn teimlo ymdeimlad o berthyn ac yn gwenu pan fyddant yn cael canmoliaeth gan y staff am rannu a gofalu am eraill. Er enghraifft, dywedwyd wrth y plant *“well done for sharing and looking after each other”*. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn arferol ac yn hoffi gwybod beth sy'n dod nesaf. Er enghraifft, cyn y sesiwn amser cinio yn neuadd yr ysgol, caiff ail ymarfer cofrestru ei gwblhau ar y carped. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn hon ac yn llawn cyffro wrth gerdded y daith fer i'r neuadd.

Mae'r plant yn ymddwyn ac yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffordd gadarnhaol iawn. Mae'r plant yn mwynhau siarad â'i gilydd am yr hyn y maent yn ei wneud ac am y penderfyniadau y maent yn eu gwneud. Er enghraifft, roedd y plant yn gofyn i'w gilydd beth yr hoffent chwarae ag ef ac a oeddent am aros dan do neu fynd allan. Mae'r plant bob amser yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r staff; maent yn cydweithredu'n dda ac yn gwrando ar eu ceisiadau. Er enghraifft, aeth y plant yn syth i olchi eu dwylo pan ddywedodd y staff ei bod hi'n amser byrbryd.

Mae'r plant yn ddysgwyr chwilfrydig. Maent yn llawn cymhelliant ac yn ymgysylltu'n llawn â'u chwarae a'u dysgu gan ganolbwyntio am gyfnodau estynedig o amser. Er enghraifft, bu rhai o'r plant yn chwarae gyda'r beiciau am gyfnod sylweddol o amser, gan ddilyn y marciau ffyrdd ac aros i eraill groesi'r ffordd. Maent yn mwynhau'r amrywiaeth eang o gyfleoedd a phrofiadau bywyd go iawn sydd ar gael iddynt yn fawr iawn, gan archwilio'r adnoddau a defnyddio eu dychymyg. Mae'r plant yn dangos hunangymhelliant wrth arwain eu chwarae eu hunain ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Er enghraifft, eisteddodd rhai o'r plant am gyfnod byr i wrando ar stori, cyn penderfynu mynd i chwarae rywle arall, ond eisteddodd eraill i wrando ar y stori gyfan, wedi ymgolli'n llwyr yn y gweithgaredd ac yn cymryd rhan weithredol ynddo.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Maent yn mwynhau dewis eu hoff ffrwyth yn ystod amser byrbryd, arllwys eu diodydd eu hunain, a chlirio'r bwrdd ar ôl gorffen a golchi eu dwylo a'u hwyneb. Mae'r plant hefyd yn mwynhau'r annibyniaeth a'r profiad cymdeithasol o frwsio eu dannedd eu hunain yn llwyddiannus.

## Gofal a Datblygiad — Rhagorol

Mae'r staff yn brofiadol ac yn wybodus. Maent yn deall polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad, ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Mae'r staff yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau i amddiffyn plant. Maent yn gwybod sut i godi pryderon ac yn gallu egluro gweithdrefnau'r lleoliad yn hyderus. Mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol a llesiant personol y plant. Maent yn rheoli risgiau'n effeithiol ac yn cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn rhoi arferion hylendid cadarn ar waith ac yn dilyn rota ar gyfer cyfrifoldebau glanhau, a gaiff eu cofnodi bob dydd. Mae'r staff yn gwisgo ffedogau a menig priodol wrth baratoi byrbrydau, ac yn sicrhau bod y byrbrydau sy'n cael eu gweini yn amrywiol, yn iach ac yn faethlon. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn ymwybodol o'u hanghenion unigol. Maent yn gyfarwydd â'u cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau ac anoddefiadau, a gwelsom bosteri clir yn llawn gwybodaeth yn y gegin a'r ardal fwyta sy'n cefnogi arferion diogel. Mae'r staff yn wybodus mewn perthynas â'u cyfrifoldebau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac yn hyderus wrth ofyn am gymorth gan asiantaethau allanol gyda chaniatâd gan y rhieni. Maent yn dilyn gweithdrefnau clir mewn perthynas â meddyginiaeth, damweiniau a digwyddiadau yn gywir.

Mae'r staff yn meithrin cydberthnasau eithriadol o gadarnhaol â'r plant. Maent yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd gynnes a gofalgar. Mae'r staff yn cynnig canmoliaeth ac anogaeth yn aml, ac maent yn fodelau rôl rhagorol i'r plant, gan eu hannog i ddefnyddio moesau da lle y bo'n briodol. Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson ac yn defnyddio technegau tynnu sylw yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn gofyn cwestiynau penagored i'r plant, yn ailgyfeirio sgyrsiau ac yn cyflwyno gwahanol weithgareddau i dynnu eu sylw. Mae’r staff yn gyson ymatebol ac yn dangos parch go iawn at safbwyntiau'r plant, gan wrando arnynt. Maent yn dilysu teimladau'r plant ac yn eu galluogi i fynegi eu hunain yn eu hamser eu hunain. Mae'r staff yn siarad â'r plant yn dyner ac yn defnyddio dulliau atgyfnerthu cadarnhaol yn rheolaidd.

Mae'r staff yn wybodus, ac mae ganddynt ddealltwriaeth ragorol o anghenion a diddordebau'r plant, a sut mae hyn yn effeithio ar eu profiadau dysgu. Maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i fagu hyder a gwydnwch y plant, ac yn cynnig cyfleoedd diddorol, sy'n seiliedig ar ddewisiadau a phenderfyniadau'r plant. Mae'r staff yn trochi'r plant yn llwyr yn y Gymraeg. Yn ddiweddar, mynychodd pob aelod o'r staff hyfforddiant arbenigol ar addysgu patrymau brawddegau allweddol yn Gymraeg. Nodwyd ganddynt fod y sesiwn wedi'u hysbrydoli gan sôn eu bod wedi sylwi ar yr effaith y mae wedi'i chael ar ddefnydd achlysurol

y plant o'r Gymraeg. Maent yn cynnig cyfleoedd amrywiol a gwerthfawr i'r plant ddysgu am y byd o'u cwmpas drwy ddathlu gwahanol ddiwylliannau a gwyliau. Er enghraifft, maent yn mwynhau ymgymryd â gweithgareddau crefft ar gyfer Diwrnod Santes Dwynwen, a straeon a phaentio â dwylo ar gyfer gŵyl Diwali.

| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| --- | --- |

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd glân, croesawgar a diogel. Mae'r adeilad, sydd ar dir yr ysgol gynradd leol, yn cynnig lefelau diogelwch rhagorol. Mae'r lleoliad bob amser ar glo, sy'n rhoi'r rhyddid i'r plant symud yn annibynnol o amgylch yr ardaloedd a'r adrannau dan do, ac i fynd i'r ardaloedd awyr agored. Mae asesiadau risg pwrpasol ar waith, gan gynnwys asesiadau risg tân. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu'r gweithdrefnau yn rheolaidd ac yn sicrhau bod darpariaeth ac adnoddau ar gael. Mae system effeithiol ar waith mewn perthynas â chofnodlyfrau ymarfer tân a chofnodion profi diogelwch tân. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y gymhareb rhwng y staff a'r plant yn gywir ac mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda iawn. Maent yn ymwybodol o faint yr amgylchedd a bod angen i'r staff fod yn wyliadwrus bob amser, gan gadw llygad ar bob ardal dan do ac awyr agored. Maent yn cadw dogfennaeth gywir gan gynnwys llyfr ymwelwyr, rotas, cofrestr o'r plant a chofnodion cofrestru staff, sy'n cyfrannu at ddiogelwch y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r ardal yn effeithiol, dan do ac yn yr awyr agored. Mae cynllun y safle wedi'i drefnu'n ofalus ac mae'n darparu mannau dysgu rhagorol i'r plant eu harchwilio yn ogystal ag ardaloedd iddynt orffwys neu gael amser tawel. Maent yn sicrhau bod gan y plant ryddid i archwilio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel pan fyddant yn dewis gwneud hynny. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i fod yn greadigol ac i archwilio mewn ffordd hyderus ac annibynnol. Yn yr ardal awyr agored, maent wedi gweithio'n galed i ddarparu man diogel sy'n cynnig llawer o ardaloedd a chyfleoedd ysgogol. Er enghraifft, mae marciau diddorol ar yr arwynebau sy'n cyfoethogi cyfleoedd chwarae'r plant, ac mae rampiau bach er mwyn i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol a datrys problem. Gwelsom ardd flodau, pabell tipî, cegin fwd fawr a phwll tywod, ynghyd ag amrywiaeth o gyfarpar ac adnoddau eraill o ansawdd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth ragorol o ddodrefn ac adnoddau sy'n addas ar gyfer oedran y plant ac sy'n ysgogi eu chwilfrydedd. Er enghraifft, gwelsom fyrddau a chadeiriau o faint addas i blant yn ogystal ag unedau cegin i'r plant yn llawn eitemau go iawn i'r plant ymgymryd â gweithgareddau chwarae rôl. Maent yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau naturiol o ansawdd fel darnau rhydd ar gyfer chwarae dychmygol, a gwelsom amrywiaeth o lyfrau a oedd yn hawdd i'r plant eu cyrraedd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth ragorol o deganau chwarae byd bach, adnoddau archwiliadol a datrys problemau, ynghyd ag adnoddau creadigol, adnoddau iaith ac adnoddau synhwyraidd. Maent yn sicrhau y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd er mwyn iddynt allu eu symud o un ardal ddysgu i ardal arall.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Rhagorol**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth arloesol ac maent yn cyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'w staff, gan greu ethos cadarnhaol iawn. Maent yn angerddol ac yn frwdfrydig am y cyfleoedd y maent yn eu cynnig i'r plant, a'r partneriaethau maent wedi'u meithrin â gweithwyr proffesiynol a'r rhieni. Mae polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad. Cafodd y datganiad o ddiben ei ddiwygio yn ystod yr arolygiad i adlewyrchu cyfrifoldebau'r unigolion yn y sefydliad yn llawn. Maent yn eithriadol o wybodus am eu cyfrifoldebau rheoleiddio ac yn drefnus wrth adolygu polisïau, tystysgrifau, gwybodaeth a chofnodion yn rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu storio'n gyfrinachol a bod adolygiadau yn cael eu cynnal mewn modd amserol. Maent yn sicrhau bod ffeiliau'r staff a'r cofrestrau yn gyfredol ac yn gywir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cofnodion y plant yn cynnwys contractau a chaniatadau gan y rhieni.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal, sy'n dangos tystiolaeth o sut maent yn ymateb i adborth. Mae ganddynt drefniadau effeithiol ar waith i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Maent yn gweithio'n agos gyda thimau cynghori i greu cynllun gweithredu manwl ar gyfer y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dosbarthu holiaduron ac yn gwrando ar farnau a safbwyntiau'r rhai hynny sy'n defnyddio'r lleoliad. O ganlyniad, maent yn gweithio'n barhaus i ddatblygu'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt i'r plant a'u teuluoedd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn er mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt systemau ar waith i ddiweddaru gwiriadau mewn modd amserol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant. Maent yn gosod disgwyliadau uchel ac yn ysbrydoli ac yn arwain y staff yn effeithiol, gan eu cefnogi a chynnig cyfleoedd iddynt ddatblygu ymhellach. Mae sesiynau goruchwylio ystyrlon a rheolaidd ac arfarniadau blynyddol yn rhan annatod o'u hymarfer ac yn ysgogi gwelliant. Dywedodd y staff eu bod yn hapus iawn yn gweithio yn y lleoliad a'u bod yn teimlo bod y rheolwyr yn eu cefnogi'n dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio staff yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r cymarebau staffio, ac weithiau yn rhagori arnynt, ac o ganlyniad, yn diwallu anghenion y plant yn llawn.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bartneriaethau ardderchog. Maent yn sicrhau bod y systemau ar gyfer cyfathrebu â'r rhieni yn gynhwysol, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau cryf iawn ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill. Maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol, yn gwahodd siaradwyr gwadd lleol ac yn rhoi cyfleoedd i'r plant fynd ar deithiau, ymweliadau a phrofiadau o ansawdd drwy gydol y flwyddyn. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn sesiynau ffitrwydd wythnosol a gynhelir gan sefydliad arbenigol, maent yn croesawu'r milfeddyg lleol i siarad â'r plant, ac yn ymweld â'r ysgol goedwig a lleoliadau fferm yn aml. Mae ganddynt gysylltiadau gwych â'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill sy'n hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/08/2024